YN CYNNWYS: FEATURING:

NEGES GAN EIN PENNAETH/ A MESSAGE FROM OUR HEADTEACHER — TUD./PAGE 2

PERFFORMIADAU EIN CORAU/ OUR CHOIRS' PERFORMANCES. — TUD./ PAGE 3

LLONGYFARCHIADAU/ CONGRATULATIONS — TUD.4-5 PAGES 4-5

GLANLLYN — TUD./ PAGE 7

# NADOLIG LLAWEN!




# CAREDIGRWYDD ARBENNIG EIN DISGYBLION.

OUR PUPILS ONCE AGAIN PROVE THEIR KINDNESS

Unwaith eto eleni, er gwaetha'r pandemig, mae ein disgyblion wedi bod yn brysur yn gwneud daioni ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol. Bu i aelodau 10R gasglu nwyddau ar gyfer Banc Bwyd Sir y Fflint, tra oedd fforwm Bl.13 wedi arwain apêl 'Operation Christmas Child'. Ar ddiwrnod cinio Nadolig yr ysgol, casglwyd arian tuag at 'Crisis at Christmas'. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu haelioni.

Once again this year, despite the pandemic, our pupils have been busy doing good for local and national charities. Members of 10R collected items for the Flintshire Food Bank, whilst the Year 13 forum led the Operation Christmas Child appeal. During our Christmas dinner day, money was raised for 'Crisis at Christmas'. Thank you so much to everyone for such kindness.

# NEGES GAN EIN PENNAETH

A MESSAGE FROM OUR HEADTEACHER

Pan ddechreuodd y tymor yn ôl ym mis Medi roedd PODiau a swigod wedi diflannu, ond mae Covid wedi aros gyda ni. Er gwaethaf hyn, mae staff wedi gweithio'n galed i ddarparu amgylchedd addysgu mor normal â phosib, ac rwy'n hynod falch o'r ffordd mai ein disgyblion wedi ymrwymo i'w hastudiaethau. Mae wedi bod yn hyfryd gweld pynciau ymarferol yn cael eu cynnig mewn ystafelloedd arbenigol yn ogystal ag ymarferion chwaraeon ar ôl ysgol. Rydym hefyd wedi gallu cynnig sesiynau allgyrsiol ychwanegol megis y clwb gwaith cartref a'r clwb perfformio sy'n cael ei redeg gan Theatr Clwyd.

Mae ein dathliadau Nadolig fel arfer yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ysgol ond nid ydym wedi gallu cynnal ein Gwasanaeth Carolau blynyddol yn eglwys y Santes Fair yn yr Wyddgrug na'n parti Nadolig cymunedol eleni. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r staff yn yr Adran Gerddoriaeth am gynllunio cyfleoedd i'n dysgwyr talentog berfformio yn y gymuned ac i recordio'r carolau Nadolig y maen nhw wedi'u rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Wrth i'r tymor yma ddirwyn i ben, hoffwn ddiolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad. Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddymuno Nadolig a Blwyddyn Newydd ddiogel ac iach i chi. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn 2022.

When we started the new term in September all traces of PODs and bubbles had disappeared but Covid has remained with us. Despite this, staff have worked hard to provide as normal a teaching environment as possible and I am immensely proud of the way the pupils have settled to their studies. It has been wonderful to see practical subjects being offered in specialist teaching rooms as well as sports practice after school. We have also been able to offer additional extra-curricular sessions in the way of a homework club and the performing club run by Theatr Clwyd.

Our Christmas celebrations are usually one of the highlights of the school year but we have been unable to hold our annual Carol Service at St Mary's Church in Mold as well as our community Christmas party. I am very grateful to the staff in the Music Department for planning opportunities for our talented learners to perform in the community and to record Christmas carols they have shared on social media.

As this term comes to an end I would like to thank you for your support and co-operation. I would like to take this opportunity to wish you a safe and healthy Christmas and New Year. I look forward to working with you in 2022.

> "...RWY'N HYNOD FALCH O'R FFORDD MAI EIN DISGYBLION WEDI YMRWYMO I'W HASTUDIAETHAU ."

**MRS BRONWEN HUGHES**

# Dim cyngerdd eto eleni, ond sain swynol ein corau'n parhau!

Dan arweiniad Mr Ynyr Llwyd ac Miss Elin Roberts o'r adran Gerddoriaeth, bu i'r Côr Hŷn a'r Côr Iau recordio dwy garol er mwyn codi calonnau pawb y Nadolig hwn. Bu nifer o'r disgyblion hefyd yn diddanu yn y dref ac yn archfarchnad Tesco Yr Wyddgrug. Cewch glywed eu perfformiadau ar safle YouTube yr adran Gerdd. Dilynwch y codau QR isod! Diolch i'r holl staff a disgyblion am eu gwaith.

# No concert again this year, but our choirs continue to serenade!

Guided by Mr Ynyr Llwyd and Miss Elin Roberts, our Senior and Junior Choirs have been busy recording two special carols to raise our spirits this Christmas. Some of our singers also entertained shoppers in the town and at Tescos. You can hear their fabulous performances by going to the Music department's YouTube site. Follow the links below! Thanks to all staff and pupils for their work.



# Llongyfarchiadau!
# Congratulations!

Llongyfarchiadau i Brynly blwyddyn 8 ar ennill medal ym Mhencampwriaeth Taekwando Gogledd Cymru!
Congratulations to Brynly in year 8 on winning a medal at the recent North Wales Taekwando Championships!





Llongyfarchiadau i Niall bl.8 ar ddod yn ail agos yng nghystadleuaeth Cadlanc Môr y Flwyddyn. Enillodd glod am ei sgiliau hwylio a pheirianneg. Da iawn, Niall!

Congratulations to Niall, also in year 8, for winning the runner-up prize in the Sea Cadet of the Year competition. His engineering and sailing skills were praised. Well done, Niall!



S4C BBC iPlayer

Mae ein cyn ddisgybl Alex Humphreys yn serennu mewn pennod arbennig o 'Am Dro' ar S4C (27.12.2021-20:00), ond gwyliwch am gyfraniad un o'n disgyblion ni! Former pupil Alex Humphreys is starring in a special episode of 'Am Dro' on S4C (27.12.2021 -20:00), but watch carefully as you might spot a contribution from one of our pupils!

# Llongyfarchiadau / Congratulations



Llongyfarchiadau i Iwan bl.11 ar gael ei dderbyn i Gôr Cenedlaethol Ieuenctid Prydain Fawr, ac i Isobel bl.13 ar ennill lle unwaith eto eleni yng Nghôr a Cherddorfa Ieuenctid Cymru.
Congratulations to Iwan in year 11 on gaining a place in the National Youth Choir of Great Britain, and to Isobel in year 13 who has secured places yet again this year in the National Youth Choir and Orchestra of Wales.





Llongyfarchiadau i Beca, blwyddyn 8, ar ennill lle ym Mand Pres Plant Prydain Fawr.
Congratulations to Beca, year 8, on securing a place in the National Children's Brass Band of Great Britain.

Bu i Sasha a Layla redeg ras arbennig ar faes Rasus Caer yn ddiweddar gan gasglu £300 at hosbis leol. Da iawn chi, ferched!
Sasha and Layla recently ran a race at the Chester Racecourse and raised £300 for a local hospice.
Well done girls!



Llongyfarchiadau i Ariana bl.8 ar ennill cystadleuaeth 'Superdance yn Swydd Gaerloyw!
Congratulations to Ariana in year 8 on winning the 'Superdance' in Gloucestershire!

O dan arweiniad Carl Jones o Theatr Clwyd, a Mrs Sarah Carter-Jones, mae disgyblion bl.7-9 wedi mwynhau clwb newydd arbennig sy'n rhoi'r cyfle i'r bobl ifanc brofi actio a symud mewn awyrgylch cyfeillgar a hwyliog. Mae'r clwb yn rhad ac am ddim, a bydd croeso i unrhyw aelodau newydd ymuno wedi'r Nadolig.

Pupils from years 7-9 have been enjoying a brand new club that provides opportunities to perform in a fun and friendly environment. The club is free of charge, and leaders Carl Jones from Theatr Clwyd and Mrs Sarah Carter-Jones will be happy to welcome new members after the Christmas break.




Theatr Clwyd



Bu criw o ddeg o ddisgyblion blwyddyn 12 a 13 yn Nglanllyn ar gyfer cwrs Cymraeg yn y chweched dosbarth. Cafwyd tridiau o ddarlithoedd ar wahanol agweddau o'r cwrs gan ddarlithwyr o Brifysgol Bangor. Bu'n gyfle hefyd i ddod i adnabod disgyblion o ysgolion o wahanol rannau o Gymru a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol yn y gwersyll. Roedd blwyddyn 12 yn falch iawn o gael cyfarfod Huw Garmon a chlywed am ei brofiadau wrth ffilmio 'Hedd Wyn', sy'n ffilm ar y fanyleb Uwch Gyfrannol, a chawsant hefyd daith i weld Yr Ysgwrn.
Uchafbwynt y tridiau oedd cystadlu yn y talwrn. Roedden nhw wedi cyfansoddi tair cerdd ar gyfer y cystadleuaethau amrywiol a chawsant gryn hwyl yn perfformio o flaen cynulleidfa gan fwynhau cyfraniadau'r ysgolion eraill. Bu cystadlu brwd am y gadair, gyda phymtheg ymgais, a daeth Nanw o flwyddyn 13 yn ail agos iawn yng nghystadleuaeth y gadair gyda cherdd gaeth yn achub y blaen arni.
Diolch i Lanllyn am drefnu'r cyfan. Bu'n daith fythgofiadwy!

10 A Level Welsh Students enjoyed a fabulous time at Glanllyn lately, where they attended a Welsh course for Sixth Formers. Three days of lectures that focused upon different aspects of the course were deievered by Bangor University lecturers. The students also had the opportunity to meet other students from across Wales and to participate in various activities. Year 12 were extremely pleased to meet Huw Garmon and his experience of starring in the film 'Hedd Wyn', a film featured in the exam specification, as well as visiting Hedd Wyn's birthplace, Yr Ysgwrn in Trawsfynydd.
The highlight of the trip was the Talwrn competition, where our students composed four poems which had to be performed in front of the other schools' students. There was fierce competition for the chair, and Nanw in year 13 came a very close second place for her strict-measure poem. Our huge thanks to Glanllyn for organising the experience. It was a memorable trip!







Ydych chi'n awyddus i gynyddu faint o Gymraeg mae eich plant yn clywed? Mae BBC Sounds ag awr o gerddoriaeth gyfoes gyda thraciau Nadolig mewn rhestr chwarae arbennig. Do you want a way to increase how much Welsh your child hears? BBC Sounds has an hour long special 'Miwsig y Siarter Iaith' playlist featuring modern Christmas tracks.

Defnyddiwch y cod QR. Use the QR Code.

# Her Nadoligaidd i'r Teulu!
# Christmas Family Challenge!

Enwch yr artistiaid sy'n canu'r caneuon Nadolig enwog isod.
Name the artists who sing the famous Christmas songs listed below:

1. Last Christmas
2. All I Want For Christmas Is You
3. Mistletoe
4. Santa's Coming For Us
5. One More Sleep
6. Un Seren
7. Merry Christmas Everyone
8. Step Into Christmas
9. Christmas Lights
10. Driving Home For Christmas

Atebion ar dudalen 11
Answers on page 11

Dilynwch y cod QR i gyrraedd cwis Nadolig dwyieithog Menter Iaith Sir y Fflint (trwy Kahoot)! Rhif PIN y gem yw 09191974.
Follow the QR code to gain access to Menter Iaith's bilingual Kahoot Christmas quiz! The pin number is 09191974.

**Yn Gyrfa Cymru gallwn eich helpu i gynllunio'ch gyrfa, paratoi at gael swydd, dod o hyd i ac ymgeisio am brentisiaethau, cyrsiau a'r hyfforddiant cywir.**

**Chwilio am Brentisiaethau**
Chwilio a gwneud cais am brentisiaethau yng Nghymru.

**Chwilio am Gwrs**
Defnyddiwch chwilio am gwrs i ddod o hyd i'r cwrs sy'n addas i chi. (dolen Saesneg)

**Cwis Paru Swyddi**
Dod o hyd i syniadau sy'n paru eich sgiliau a diddordebau.

**Cwis Buzz**
Cymerwch y cwis i ddarganfod eich math o bersonoliaeth a pha swyddi allai fod yn addas i chi.

**Gwybodaeth am Swyddi**
Chwilio am wybodaeth am 100oedd o deitlau swyddi gwahanol.

**Pynciau a Swyddi**
Archwilio swyddi sy'n gysylltiedig â phwnc.

Gyrfa Cymru
Careers Wales



Cafodd disgyblion blwyddyn 10 gyfle i wneud ymchwil ar wefan Gyrfa Cymru yn ystod y bore ABCh fis Tachwedd. Roedd cyfle i wneud cwis Paru Swyddi, sydd yn gallu helpu'r disgyblion o ran syniadau gyrfaoedd, a chwis Buzz, i ddarganfod eu math o bersonoliaeth a pha swyddi allai fod yn addas iddynt. Ar y wefan hefyd, mae gwybodaeth am gannoedd o wahanol swyddi a data am y farchnad lafur, er mwyn i'r disgyblion ddeall pa gyfleoedd gyrfaoedd sydd iddynt.

Mae'r ysgol hefyd wedi buddsoddi i gael yr hawl i ddisgyblion ddefnyddio gwefan Unifrog, sef un o'r gwefannau addysgol mwyaf o ran platfform cyrchfannau, gyda gwybodaeth am brentisiaethau, cyrsiau coleg a phrifysgol, eto i helpu ein disgyblion i wneud penderfyniadau da gyda'u llwybrau gyrfa.

During a PSE session in November, Year 10 pupils were given the opportunity to research their career opportunities on the Careers Wales website. By completing the Job Matching quiz, they were given job ideas to match their interests, and the Buzz quiz helped them discover their personality type and what jobs would suit them. The site also features information on hundreds of different job titles and data on the current labour market to help the pupils understand the career opportunities available to them.

The school has also invested in Unifrog, a leading educational careers site and destination platform, with information on apprenticeships, college and university courses, again to help our pupils make the right choices regarding their career paths

https://careerswales.gov.wales

unifrog

https://www.unifrog.org

**At Careers Wales we can help you to plan your career, prepare to get a job, and find and apply for the right apprenticeships, courses and training.**

**Apprenticeship Search**
Search and apply for apprenticeships in Wales.

**Course Search**
Use our course search to find the course that's right for you.

**Job Matching Quiz**
Find job ideas that match your skills and interests.

**Buzz Quiz**
Take the quiz to find out your personality type and what jobs might suit you.


**Job Information**
Search for information on 100's of different job titles.

**Subjects and Jobs**
Explore the jobs you could do linked to subjects.




# Prosbectws y 6ed
# The 6th Form Prospectus

## Ymestyn eich potensial / Expand your potential








Mae myfyrwyr blwyddyn 11 wedi cael copi o brosbectws y Chweched Dosbarth er mwyn iddyn nhw baratoi eu dewisiadau ar gyfer blwyddyn 12. Mae Mr Aled Owen, Pennaeth y 6ed, hefyd wedi cyfweld â'r myfyrwyr er mwyn eu cynghori ar y camau posib nesaf. Os oes unrhyw deulu'n awyddus i drafod ymhellach, mae croeso i chi wneud apwyntiad efo'r ysgol.

Our year 11 students have recently received a copy of our Sixth Form prospectus so that they may start preparing their options for year 12. Our Head of 6th Form, Mr Aled Owen, has also been interviewing the students to advise them of their possible next steps. Should any family wish to further discuss possible options, you are more than welcome to make an appointment with the school.

Noson Trydyddol – 20.1.2022 – Tertiary Evening

# Dwy Dalentog! Talented Two!




Gwych oedd gweld y cardiau Nadolig yma ar werth- wedi eu dylunio gan Nanw a Mabli-er mwyn codi arian er cof am Olivia Alkir, disgybl o Ysgol Brynhyfryd.
It was great to see these amazing Christmas cards on sale-designed by pupils Nanw and Mabli- to raise funds in memory of Olivia Alkir, a pupil from Ysgol Brynhyfryd.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod yr ysgol wedi ei thynnu o gategori monitro Estyn wedi adolygiad diweddar. Cewch ragor o fanylion wrth ymweld â'u gwefan. It's a pleasure to announce that the school has been withdrawn from monitoring by Estyn following a recent review. Further details can be found on their website.

Estyn



Dymuniadau gorau i Mr Josh Jones sy'n gadael yr ysgol ar ddiwedd y tymor. Mae Mr Jones wedi bod yn addysgu yn yr Adran Wyddoniaeth a hefyd wedi bod yn gyfrifol am sesiynau rygbi CA3 wedi'r ysgol.
Best wishes to Mr Josh Jones who is leaving at the end of term. Mr Jones has been teaching in the Science department and was also responsible for the Keystage 3 extra-curricular rugby sessions.

**Atebion/Answers:** 1.Wham. 2.Mariah Carey. 3.Justin Bieber 4.Sia 5.Leona Lewis 6.Delwyn Sion 7.Shakin'Stevens 8. Elton John 9.Coldplay 10.Chris Rea

# Blwyddyn 7 / Year 7

Eu tymor cyntaf ar ben!  Their first term completed!




















# 2022...



Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau bod gan eich plentyn yr offer cywir ar gyfer eu gwersi yn 2022-gan gynnwys beiro, pensil, pren mesur a chwalwr.

We kindly ask that you ensure your child has the correct equipment for their lessons in 2022- including a biro, pencil, ruler and rubber.

## Gwisg Ysgol / School Uniform

Mae'n hanfodol bod disgyblion blwyddyn 7-11 yn gwisgo gwisg ysgol swyddogol gan gynnwys y blaser. Nid yw hwdis yn dderbyniol a gofynnwn i chi fel rhieni a gwarcheidwaid sicrhau bod y wisg ysgol gywir gan eich plentyn yn ddyddiol. It's imperative that our year 7-11 pupils wear the official school uniform, including the blazer. Hoodies are not acceptable and we kindly ask you as parents and guardians that you ensure your child has the correct uniform on a daily basis.

Dymunwn wyliau hapus a diogel i bob un ohonoch.
We wish everyone and happy and safe holiday.

'Welwn ni chi yn 2022! See you in 2022!